

Arolygiad o Ysbyty (Dirybudd)

Ysbyty Gwynedd – Gwasanaethau
Mamolaeth, Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr

Dyddiad arolygu: 25 – 27 Tachwedd
2019

Dyddiad cyhoeddi: 28 Chwefror 2020

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	15
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	22
4.	Beth nesaf?	30
5.	Sut rydym yn arolygu ysbytai	31
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	32
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	33
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	34

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf:** rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaethau a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn a wnawn
- **Uniondeb:** mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- **Annibynnol:** rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- **Cydweithredol:** rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- **Proffesiynol:** mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Drwy ein gwaith, ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant drwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd o wasanaethau mamolaeth Ysbyty Gwynedd, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 25, 26 a 27 Tachwedd 2019. Mae'r arolygiad hwn yn rhan o adolygiad cenedlaethol AGIC o wasanaethau mamolaeth ledled Cymru¹.

Ymwelwyd â'r wardiau ysbyty canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward Llifon – ward gynenedigol (cyn esgor) a ward ôl-enedigol (ar ôl esgor) gyda 28 o welyau
- Uned dan arweiniad bydwagedd – gyda dwy ystafell esgor ac un pwll geni
- Ward esgor – (yn ystod y cyfnod esgor) gyda saith ystafell esgor ac un pwll geni
- Ardal asesu brysbennu ac ystafell aros
- Un theatr llawdriniaethau.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau o arolygwyr AGIC, tri adolygwr sy'n gymheiriaid clinigol (un obstetrydd ymgynghorol a dwy fydwraig) ac un adolygwr lleyg. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o reolwyr arolygu AGIC.

Ystyriodd AGIC i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn cyrraedd y Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o ysbytai yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

¹ <https://agic.org.uk/adolygiad-cenedlaethol-o-wasanaethau-mamolaeth>

2. Crynodeb o'n harolygiad

Er i ni nodi rhai meysydd i'w gwella, yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol â pharch ac urddas i'r cleifion.

Roedd rhai trefniadau da ar waith i gefnogi'r broses o ddarparu gofal diogel ac effeithiol a gwaith tîm amlddisgyblaethol cadarnhaol.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y menywod a'u teuluoedd yn gadarnhaol am y gofal a'r driniaeth a roddwyd yn ystod eu harhosiad yn yr uned
- Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio proffesiynol, caredig ac urddasol rhwng y staff a'r cleifion
- Roedd amrywiaeth dda o wybodaeth hybu iechyd wedi'i harddangos
- Roedd trefniadau da ar waith i roi cymorth profedigaeth i'r menywod a'u teuluoedd
- Roedd gweithgareddau clinigol beunyddiol yn cael eu llywodraethu'n dda
- Roedd arweinyddiaeth gryf yn amlwg o ran elfennau bydwreigiaeth ac elfennau meddygol ac roedd cymorth da yn cael ei gynnig i'r staff.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Trefniadau ar gyfer adolygu cynlluniau swyddi meddygol
- Trefniadau ar gyfer adolygu polisïau a gweithdrefnau
- Rhai agweddau ar gadw cofnodion cleifion
- Trefniadau ar gyfer adolygu mynediad at gymorth iechyd meddwl amenedigol.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw'r sefydliad iechyd mwyaf yng Nghymru ac mae'n darparu ystod lawn o wasanaethau sylfaenol, cymunedol, iechyd meddwl a gwasanaethau ysbyty aciwt i boblogaeth o tua 678,000 o bobl ledled chwe sir yng Ngogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam). Mae gan y bwrdd iechyd weithlu sy'n cynnwys tua 16,500 o aelodau o staff.

Ceir tri phrif ysbyty (Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Maelor Wrecsam) ynghyd â rhwydwaith o ysbytai cymunedol, canolfannau iechyd, clinigau, unedau iechyd meddwl a thimau cymunedol.

Ysbyty Gwynedd yw'r ysbyty cyffredinol dosbarth ar gyfer ardal orllewinol Gogledd Cymru, ac mae wedi'i leoli ym Mangor. Mae'r ysbyty yn gwasanaethu poblogaeth o dros 200,000 o bobl. Mae gan y gwasanaeth ysbyty aciwt gyfanswm o 684 o welyau, gydag ystod lawn o arbenigeddau.

Caiff y gwasanaethau mamolaeth eu rheoli fel gwasanaeth rhwydwaith ar gyfer Gogledd Cymru, wedi'i gefnogi gan rwydwaith newyddenedigol. Cynigir gwasanaethau i bob menyw a'i theulu sy'n byw o fewn ffin ddaearyddol y bwrdd iechyd. Mae'r gwasanaethau mamolaeth hefyd yn darparu gofal i fenywod sy'n dewis rhoi genedigaeth yng nghyfleusterau'r bwrdd iechyd sy'n byw y tu allan i'r ffin ddaearyddol.

Ar gyfartaledd, ceir tua 6,224 o enedigaethau yn y bwrdd iechyd bob blwyddyn, gyda thua 1,770 o'r rhain yn Ysbyty Gwynedd.

Caiff menywod sy'n rhoi genedigaeth o fewn y bwrdd iechyd ddewis o blith pedwar lleoliad geni. Mae'r rhain yn cynnwys y cartref, unedau annibynnol dan arweiniad bydwragedd, unedau cyfochrog dan arweiniad bydwragedd ac unedau obstetrig.

Ansawdd profiad y claf

Cawsom sgwrs â'r cleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle roedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Roedd y cleifion yn gadarnhaol ynghylch eu profiad cyffredinol o'r gwasanaeth. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion wrthym eu bod yn hapus â'r gofal a'r cymorth a roddwyd iddynt. Yn ddieithriad, dywedodd y cleifion wrthym eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch bob amser.

Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio cwrtais, cyfeillgar a chefnogol rhwng y staff a'r cleifion.

Nodwyd gennym fod angen adolygu'r adnodd amenedigol er mwyn cynyddu'r cymorth sydd ar gael.

Roedd gwybodaeth hybu iechyd yn cael ei harddangos yn glir ym mhob rhan o'r uned.

Nodwyd gwelliannau gennym o ran y dewisiadau geni a gaiff eu trafod a dogfennaeth briodol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion, teuluoedd a gofalwyr er mwyn cael eu barn ar safon y gofal a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 10 holiadur. Cawsom hefyd sgwrs â 10 o gleifion yn ystod yr arolygiad.

Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron o'r farn bod y gofal a'r driniaeth a roddwyd yn ystod eu harhosiad yn yr uned famolaeth yn ardderchog (nodwyd sgoriau o naw allan o 10 ac uwch). Hefyd, dywedodd y cleifion a'u teuluoedd y cawsom sgwrs â nhw eu bod wedi cael profiad da ym mhob rhan o'r uned. Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys:

"Mae help ar gael bob amser – aethant â'r babi oddi wrthyf dros nos er mwyn i mi allu cysgu".

“Roedd yn hawdd mynd at y staff ac roeddwn bob amser yn teimlo bod croeso yno”.

Cadarnhaodd y mwyafrif o'r cleifion eu bod wedi aros am fwy na 24 awr ar ôl rhoi genedigaeth.

Cadw'n iach

Gwelsom fod cryn dipyn o wybodaeth hybu iechyd yn cael ei harddangos mewn perthynas â bwydo ar y fron, cyngor ar gyswllt croen â chroen, iechyd meddwl ôl-enedigol a chyngor cyffredinol ar gadw'n iach cyn, yn ystod ac ar ôl beichiogrwydd.

Roedd yr ysbyty yn barth dim smygu dynodedig, a oedd yn cynnwys gwaharddiad ar ddefnyddio anwedd/e-sigaréts, a gwelsom wybodaeth am roi'r gorau i smygu ym mhob rhan o'r uned.

Gofal ag urddas

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom lawer o enghreifftiau o'r staff yn ymddwyn yn dosturiol, yn garedig ac yn gyfeillgar tuag at y cleifion a'u teuluoedd. Gwelsom y staff yn trin y cleifion â pharch, cwrteisi a moesgarwch bob amser. Roedd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd ein holiaduron yn gadarnhaol iawn am eu profiad o gael gofal.

Hefyd, gwelsom y staff yn hybu preifatrwydd ac urddas wrth helpu'r cleifion â'u gofal personol. Gwnaethom edrych ar y dogfennau gofal ac ni welsom unrhyw feysydd a oedd yn peri pryder ynghylch gofal ag urddas.

Roedd cyfleusterau en-suite yn rhai o'r ystafelloedd geni ac ôl-enedigol a oedd yn helpu i gefnogi urddas yn ystod arhosiad y claf. Lle nad oedd cyfleusterau en-suite ar gael, roedd toiledau a rennir wedi'u lleoli gerllaw.

Dywedodd pedwar o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron eu bod wedi gweld yr un fydwraig yn yr uned eni ag y gwelsant yn eu hapwyntiadau cynenedigol. Roedd hanner y cleifion wedi bod yn feichiog ers chwech i 12 wythnos pan gawsant eu hapwyntiad cyntaf. Dywedodd pob un o'r cleifion fod y fydwraig wedi gofyn iddynt sut roeddent yn teimlo ac yn ymdopi'n emosiynol yn ystod y cyfnod cynenedigol.

Dywedodd pob aelod o'r staff y cawsom sgwrs â nhw eu bod wedi cael hyfforddiant profedigaeth ac y byddent yn teimlo'n hyderus i ddefnyddio'r polisïau cywir a threfnu'r cymorth cywir, er mwyn eu galluogi i roi gofal priodol i unrhyw rieni sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar. Roedd ystafell

profedigaeth ddynodedig yn yr uned, sef 'Ystafell yr Angylion'. Gwelsom fod yr ystafell hon yn cynnig amgylchedd cyfforddus i'r cleifion a'u teuluoedd ei ddefnyddio. Os oedd yr ystafell hon yn cael ei defnyddio, dywedwyd wrthym fod ystafell ôl-enedigol wag addas ar gael. Fodd bynnag, yn ein barn ni, nid oedd lleoliad yr ystafell honno yn addas. Roedd wrth ymyl yr uned asesu a gellid gweld a chlywed mamau beichiog yn cael eu hasesu drwy'r drws. Roedd mesurau gwrth-sain wedi cael eu rhoi ar waith er mwyn lleihau'r sain o'r tu allan a gwelwyd cynlluniau hefyd ar gyfer ailddylunio'r ystafell er mwyn cynnal urddas a pharch y cleifion a'u teuluoedd. Dywedwyd wrthym fod cynlluniau wedi cael eu cymeradwyo'n ddiweddar ond nad oeddent wedi cael eu rhoi ar waith eto ar adeg ein hymweliad. Dywedwyd wrthym fod arweinydd profedigaeth a oedd yn gweithio ym mhob un o'r tri safle yn y bwrdd iechyd ar gael yn ystod oriau gwaith craidd er mwyn cynnig cymorth a chyingor. Dywedodd y staff wrthym hefyd mai metron ar alwad y gwasanaeth mamolaeth fyddai'r pwynt cyswllt cyntaf pe bai angen arweiniad y tu allan i oriau craidd. Fodd bynnag, dywedodd y staff hefyd eu bod o'r farn bod diffyg cymorth amenedigol i gleifion gan nad oedd digon o adnoddau ar gael i'r tîm iechyd meddwl dynodedig, a chadarnhaodd rhai uwch-aelodau o'r staff hefyd fod hyn yn destun pryder.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff adnoddau cymorth amenedigol ac argaeledd y cymorth hwnnw eu hadolygu.

Gwybodaeth i gleifion

Gwelsom fod cyfarwyddiadau i'r uned famolaeth yn cael eu harddangos yn glir ym mhob rhan o'r ysbyty. O ganlyniad, roedd yn hawdd i bobl ddod o hyd i'r lle priodol i dderbyn gofal. Roedd amseroedd ymweld yn cael eu harddangos yn glir yn yr uned a dywedodd y staff wrthym y gallai'r amseroedd hyn gael eu haddasu ar gais.

Roedd manylion staffio dyddiol yn cael eu harddangos yn yr uned i roi gwybod i'r cleifion pwy fyddai'n gofalu amdanynt.

Roedd gwybodaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac roedd y staff y cawsom sgwrs â nhw yn ymwybodol o'r gwasanaethau cyfieithu yn y bwrdd iechyd a sut i gael gafael arnynt. Gellid adnabod bydwagedd Cymraeg hefyd drwy'r logo siaradwr Cymraeg² ar eu gwisg.

Cyfathrebu'n effeithiol

Ar y cyfan, roedd yn ymddangos bod y cleifion yn teimlo'n gadarnhaol am y rhyngweithio rhyngddynt a'r staff yn ystod eu cyfnod yn yr uned. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo'n hyderus i ofyn am help neu gyngor yn ôl yr angen. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion hefyd fod y bydwagedd a'r staff meddygol wedi gwrandao arnynt yn ystod eu harhosiad. Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion y cawsom sgwrs â nhw a'r rheini a oedd wedi cwblhau holiaduron nad oedd eu dewisiadau geni bob amser yn cael eu trafod. Prin hefyd oedd y dystiolaeth o drafodaethau o'r fath yn y nodiadau achos a welsom.

Gwelsom fod y staff yn cynnal preifatrwydd y cleifion wrth rannu gwybodaeth. Gwnaethom sylwi ei bod yn arfer cyffredin i'r staff gau drysau ystafelloedd ymgynghori wrth ddarparu gofal er mwyn diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Gwelsom fod staff yr uned yn cyfarfod ddwywaith y dydd, ar adegau newid sifft. Roedd trosglwyddiadau bydwreigiaeth a meddygol yn cael eu cynnal ar wahân am nad oedd y sifftiau bydwreigiaeth a meddygol yn dilyn yr un patrwm gwaith. Yn ystod y cyfarfodydd trosglwyddo a fynychwyd gennym, gwelsom gyfathrebu effeithiol wrth drafod anghenion a chynlluniau'r cleifion, gyda'r bwriad o gynnal parhad gofal. Roedd y cyfarfodydd hyn wedi'u strwythuro'n dda ac yn seiliedig ar dystiolaeth, a oedd yn arfer gwerth ei nodi ym marn y tîm arolygu.

² Mae brand Iaith Gwaith yn ffordd hawdd o hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg drwy nodi'r siaradwyr Cymraeg yn eich tîm. Os yw rhywun yn gwisgo bathodyn, neu laniard, mae hyn yn dangos y gallant sgwrsio yn Gymraeg.

Roedd gan bob ward fwrdd cipolwg ar statws cleifion³ a oedd yn cael ei ddefnyddio bob dydd gan dimau amlddisgyblaethol. Roedd y byrddau hyn yn nodi materion ynglŷn â diogelwch cleifion a gofynion neu gynlluniau gofal dyddiol yn glir, yn ogystal â'r cymorth unigol angenrheidiol a'r trefniadau rhyddhau cleifion.

Dyweddodd y staff wrthym hefyd fod enghreifftiau o ddysgu gweithredol i'w gweld drwy grwpiau Lleisiau Mamolaeth Bywiog⁴ ac Ôl-ystyriaethau ar ôl Geni⁵, a gaiff eu cadeirio gan ddefnyddwyr y gwasanaeth. Roedd y grwpiau hyn wedi'u creu er mwyn i fenywod beichiog a mamau newydd gyfarfod a thrafod gwasanaethau, gofal a gwelliannau. Roedd tudalen Facebook hefyd ar gael i unrhyw un sydd am ddysgu mwy am y gwasanaethau mamolaeth yng Ngogledd Cymru.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff trafodaethau eu cynnal am ddewisiadau geni ac y cânt eu dogfennu'n briodol.

Gofal amserol

Dyweddodd y cleifion y cawsom sgwrs â nhw fod y staff yn gymwynasgar iawn ac y byddent bob amser yn diwallu eu hanghenion mewn ffordd amserol. Esboniodd y staff wrthym y byddent bob amser yn cynnal archwiliadau rheolaidd o'r cleifion er mwyn nodi a oedd ganddynt unrhyw anghenion

³ Mae'r Bwrdd Cipolwg ar Statws Cleifion yn cael ei ddefnyddio ar wardiau ysbyty er mwyn arddangos gwybodaeth bwysig am gleifion megis: lefelau risg o haint, symudedd, llif derbyn a rhyddhau, nifer y gwelyau llawn, timau nyrsio a meddygol, ymhlith pethau eraill.

⁴ Lleisiau Mamolaeth Bywiog – Grŵp ymgysylltu â defnyddwyr sy'n cynnal digwyddiadau ymgysylltu â ffocws allweddol ar annog normalaeth – gan sicrhau y caiff lleisiau menywod eu clywed.

⁵ Gwasanaeth gwrando yw Ôl-ystyriaethau ar ôl Geni, a gaiff ei gydgyssylltu gan y fydwraig ymgynghorol, ac sydd ar gael i unrhyw fenyw a roddodd enedigaeth ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'i phartner. Mae'n gyfrinachol ac yn cynnig cyfle i drafod a deall yr hyn a ddigwyddodd yn ystod y cyfnod esgor a'r enedigaeth.

personol, anghenion maeth neu anghenion cysur. Gwelwyd hyn hefyd yng nghofnodion y cleifion a archwiliwyd gennym. Gwelsom hefyd fod clychau galw yn hygyrch iawn ac yn cael eu hateb mewn ffordd amserol.

Gwelsom fod arsylwadau ar y cleifion yn cael eu cofnodi ar siart a gydnabyddir yn genedlaethol er mwyn nodi'r cleifion a allai fod yn mynd yn sâl neu'n datblygu sepsis. Roedd y staff yn ymwybodol o'r adnodd sgrinio a'r system rhoi gwybod am sepsis, a oedd yn sicrhau bod modd cymryd camau priodol ac amserol.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwelsom ei bod yn hawdd i bawb ddefnyddio'r cyfleusterau ym mhob rhan o'r uned.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion cleifion yn yr uned a gwelsom dystiolaeth bod credoau personol a dewisiadau crefyddol y cleifion yn cael eu cofnodi yn ystod apwyntiadau cynenedigol. Roedd hyn er mwyn helpu i sicrhau bod y credoau a'r dewisiadau hynny'n cael eu parchu yn ystod eu gofal beichiogrwydd, esgor ac ôl-enedigol. Gwelsom fod cynlluniau gofal hefyd yn hybu annibyniaeth pobl yn seiliedig ar asesiad o'u galluoedd.

Roedd cymorth gan bartneriaid geni yn cael ei annog ac roedd pob un o'r ystafelloedd geni yn cynnwys adnoddau digonol. Roedd dwy o'r ystafelloedd geni yn yr uned hefyd yn cynnwys pwll geni gweithredol y gallai'r cleifion ei ddefnyddio wrth esgor.

Dywedodd y staff a'r cleifion wrthym fod grwpiau crefft lleol i rieni fel bwydo ar y fron a hybu iechyd cyn geni ac ar ôl geni yn fuddiol iawn i famau a thadau newydd. Roedd dosbarthiadau rhianta hefyd yn cael eu cynnig i deuluoedd yn eu cartrefi. Caiff y sesiynau hyn eu trefnu a'u cynnal gan weithwyr cymorth bydweigiaeth ac roedd y tîm arolygu o'r farn eu bod yn enghraifft o arfer da wrth hybu annibyniaeth.

Hawliau pobl

Gwelsom fod teuluoedd/gofalwyr yn gallu rhoi cymorth i gleifion a chwarae rhan yn eu gofal yn unol â dymuniadau a dewisiadau'r cleifion. Roedd y trefniadau hyn yn cael eu cofnodi yn nodiadau'r cleifion er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r tîm yn cael gwybod am ddewisiadau'r cleifion.

Dywedodd y staff a'r cleifion wrthym fod trefniadau ymweld agored ar gael, gan ganiatáu i'r partner, neu rywun dynodedig arall, ymweld rhwng 9.00am a 8.00pm. Dywedodd y staff wrthym y gallai partneriaid geni aros gyda'r claf yn ystod y cyfnod esgor.

Roedd yr ysbyty'n darparu gwasanaeth caplaniaeth ac roedd ganddo gapel ysbyty. Dywedwyd wrthym hefyd am drefniadau i alluogi cleifion o grefyddau gwahanol i ddefnyddio'r ystafelloedd gweddïo er mwyn diwallu eu hanghenion ysbrydol.

Gwrando ar adborth a dysgu ohono

Roedd gwybodaeth ar gael ar wefan y bwrdd iechyd am y broses i'r cleifion ei dilyn os oedd ganddynt unrhyw bryderon roeddent yn dymuno eu codi, ac roedd gwybodaeth ar gael yn yr uned hefyd. Dywedodd yr uwch-dîm rheoli wrthym fod rheolwyr wardiau'r uned yn gwbl ymwybodol o broses Gweithio i Wella⁶ GIG Cymru a sut i ymdrin â chwynion. Cadarnhaodd y staff eu bod yn gwybod sut i ymdrin â chwynion. Fodd bynnag, nid oedd y staff fel rheol yn rhoi manylion i gleifion am y Cyngor Iechyd Cymuned,⁷ a allai gynnig gwasanaeth eirioli a chymorth i godi pryder am eu gofal.

Ar ôl cael cwyn anffurfiol, dywedwyd wrthym y byddai'r prif fetronau yn cysylltu â'r claf i gynnig trafod y mater, ac y byddent hefyd yn hyrwyddo'r weithdrefn gwyno ffurfiol pe bai'r claf am ddilyn y llwybr hwn. Eglurodd y staff eu bod yn gwneud hyn er mwyn mynd i'r afael â phryderon, ond hefyd gyda'r nod o dynnu sylw at unrhyw faterion ymarfer y gall fod angen eu datrys. Dywedodd y staff wrthym fod cyfathrebu parhaus â chleifion a'u teuluoedd drwy gydol unrhyw achos lle roedd pryder wedi dod i law, a'u bod hefyd yn cael y cyfle i gyfarfod ag uwch-aelodau o'r staff er mwyn trafod eu pryderon ymhellach.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ceisio adborth cleifion yn rheolaidd drwy ffurflenni adborth neu holiaduron, gan gynnwys y cerdyn gwybodaeth ôl-ystyriaethau a oedd yn cael ei roi i bob menyw ar ôl rhoi genedigaeth.

⁶ <http://www.wales.nhs.uk/sites3/w-home.cfm?orgid=932>

⁷ <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/899/hafan>

Dywedwyd wrthym fod yr uwch-dîm rheoli yn gweithredu ar y rhain a'u bod yn cael eu rhannu â'r staff yn ystod cyfarfodydd gwersi a ddysgwyd ac arfarniadau.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion a'u teuluoedd yn cael gwybod am y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) o ran gwasanaethau eirioli a chymorth.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Ar y cyfan, roedd prosesau da ar waith yn yr uned er mwyn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol.

Gwelsom fod prosesau cadarn ar waith ar gyfer rheoli meddyginiaethau, asesu poen a digwyddiadau clinigol, gan sicrhau y caiff gwybodaeth a gwersi eu rhannu â phob rhan o'r gwasanaeth.

Gwnaethom nodi meysydd i'w gwella o ran y cymorth a'r ddarpariaeth bwydo ar y fron yn yr uned.

Gwelsom fod diogelwch cleifion yn cael ei hybu mewn cynlluniau gofal dyddiol, ac ategwyd hyn yng nghofnodion y cleifion a welsom. Fodd bynnag, roedd anghysondebau o ran cwblhau cofnodion meddygol.

Roedd y gwasanaeth yn disgrifio trefniadau da ar gyfer gweithdrefnau diogelu, gan gynnwys darparu hyfforddiant i staff.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd yr uned yn ymddangos yn lân iawn ac yn daclus, ac roedd wedi'i goleuo'n briodol a'i hawyru'n dda. Gwelwyd bod yr ystafelloedd clinigol, fel yr ystafell amlbwrpas ar gyfer deunydd glân a'r ystafell olchi, hefyd yn drefnus iawn.

Gwnaethom ystyried amgylchedd yr uned a nodi bod mesurau diogelwch digonol ar waith i sicrhau bod y babanod yn ddiogel yn yr uned. Gwnaethom nodi bod mynediad i'r uned eni wedi'i gyfyngu gan ddrysau wedi'u cloi a oedd ond yn agor gyda phàs staff neu pe bai aelod o'r staff yn cymeradwyo mynediad. Rhoddwyd sicrwydd i ni hefyd fod ymarferion herwydio ac ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd i sicrhau bod diogelwch yn cael ei gynnal mewn argyfwng.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau yn yr uned ar gyfer cael cymorth mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf. Gwelsom fod seiniwr brys a chlychau galw ar gael ym mhob ystafell. Gwelsom fod y troli brys, i'w ddefnyddio mewn argyfwng yn ymwneud â chlaf, yn drefnus ac yn cynnwys yr holl gyfarpar priodol, gan gynnwys diffibriliwr. Roedd y cyffuriau brys hefyd yn cael eu storio ar y troli dadebru brys, a chawsom sicrwydd bod cyflenwad, dyddiadau a chyflwr y cyfarpar hwn yn cael eu harchwilio'n rheolaidd.

Gwelwyd cyfarpar gwagio mewn argyfwng yn yr ystafelloedd pyllau geni, y gellid ei ddefnyddio petai cymhlethdodau'n codi yn ystod genedigaeth dŵr. Cawsom sicrwydd hefyd fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol ar sut i'w ddefnyddio mewn argyfwng.

Atal cwympiadau

Gwelsom fod asesiad risg ar waith ar gyfer cleifion sy'n cael eu derbyn i'r uned a'r rhai sy'n defnyddio'r pyllau geni. Dywedwyd wrthym y rhoddir gwybod am unrhyw achosion o glaf yn cwmpo drwy system cofnodi digwyddiadau electronig y bwrdd iechyd. Eglurodd y staff y byddai'r system cofnodi digwyddiadau yn cael ei dilyn er mwyn sicrhau y caiff gwersi eu dysgu ac y cymerir camau priodol.

Atal a rheoli heintiau

Gwelsom fod ardaloedd clinigol yr uned yn lân a gwelsom fod cyfarpar diogelu personol ar gael ym mhob ardal a'i fod yn cael ei ddefnyddio gan bob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom bob aelod o'r staff yn cynnal y safonau o fod yn Noeth o dan y Penelin⁸ a gwelsom ddulliau hylendid dwylo da. Gwelsom fod cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael. Gwelsom hefyd fod gwybodaeth yn cael ei harddangos i hyrwyddo'r weithdrefn golchi dwylo gywir i'r staff ei dilyn. Fodd bynnag, gwelsom fod rhai o'r cyfleusterau cyflenwi gel hylendid dwylo yn yr uned yn wag neu nad oeddent yn gweithio.

Dywedwyd wrthym fod archwiliad rheoli heintiau wedi cael ei gynnal gan y bwrdd iechyd yn ddiweddar, a dangoswyd y canlyniadau i ni. Gwelsom fod amserlenni glanhau ar waith ar gyfer yr uned a'u bod yn gyfredol a gwelsom labeli dynodedig ar gyfarpar i ddangos ei fod yn lân ac yn barod i'w ddefnyddio.

Gwelsom lefel uchel o gydymffurfiaeth â hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau. Eglurodd y staff y byddai unrhyw bryderon a godir ynglŷn ag atal a rheoli heintiau yn cael eu huwchgyfeirio at uwch-aelodau o'r staff.

Roedd rhai ystafelloedd ochr yn yr uned i'r cleifion eu defnyddio pe bai angen lleihau'r risg o haint a helpu i atal heintiau rhag cael eu trosglwyddo i'r cleifion eraill.

Dywedwyd wrthym fod y pyllau geni yn cael eu glanhau bob dydd, a gwelwyd tystiolaeth o hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod geliau hylendid dwylo ar gael i'w defnyddio.

Maeth a hydradu

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom edrych ar y ffordd roedd anghenion maeth y cleifion yn cael eu diwallu yn ystod y dydd a'r nos.

Roedd cyfleusterau ar gael yn yr uned i brynu diodydd os oedd angen. Gwelsom y cleifion yn cael cynnig diodydd poeth ac oer ac roedd jygiau dŵr o

⁸ Yr arfer gorau yw bod y staff sy'n ymwneud â gofal y cleifion yn uniongyrchol yn noeth o dan y penelin. Mae hyn yn cynnwys gwisgo dillad â llewys byr, peidio â gwisgo gemwaith (ar wahân i fodrwy briodas blaen), watshis, paent ewinedd nac ewinedd ffug.

fewn cyrraedd hawdd. Gallai staff yr uned ddefnyddio cyfleusterau i wneud tost a diodydd i'r cleifion y tu allan i oriau craidd. Dywedodd y cleifion wrthym hefyd fod y bwyd a'r diodydd a oedd ar gael o safon uchel.

Yng nghofnodion gofal y cleifion a welsom, roedd gofynion maeth y cleifion yn cael eu dogfennu'n dda.

Rheoli meddyginiaethau

Gwnaethom edrych ar y trefniadau ar gyfer storio a rhoi meddyginiaethau yn yr uned. Gwelsom fod cypyrddau meddyginiaeth yn cael eu cloi'n ofalus er mwyn sicrhau diogelwch.

Roedd archwiliadau dyddiol yn cael eu cynnal o'r tymheredd ar gyfer storio meddyginiaeth. Gwelsom fod trefniadau addas ar gyfer storio a rhoi cyffuriau a reolir yn ddiogel. Nodwyd gennym hefyd fod y trefniadau ar gyfer rhagnodi a rhoi meddyginiaethau yn unol â pholisi'r bwrdd iechyd.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion meddyginiaeth a gwelsom fod y rhain wedi cael eu cwblhau'n briodol. Roedd cymorth fferyllol ar gael ar gyfer yr uned ac roedd proses gyfrifiadurol y tu allan i oriau ar gael i'r staff weld cyflenwad ac argaeledd cyffuriau yn yr ysbyty yn ystod yr adegau hyn, er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw oedi wrth roi meddyginiaeth i'r cleifion. Roedd gan yr uned gyflenwad o feddyginiaeth y gallai'r cleifion fynd â hi adref gyda nhw hefyd, a oedd yn sicrhau bod y cleifion yn gallu cael eu rhyddhau'n amserol.

Diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg

Roedd gan y bwrdd iechyd bolisiau a gweithdrefnau ar waith i hybu a diogelu lles plant ac oedolion a oedd yn wynebu risg. Roedd hyfforddiant diogelu'n orfodol, a chadarnhaodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael hyfforddiant yn ystod y 12 mis diwethaf.

Roedd bydwaig ddiogelu arweiniol wedi'i phenodi ar gyfer y bwrdd iechyd, a fyddai'n rhoi cymorth a hyfforddiant i'r staff. Dywedwyd wrthym fod hyfforddiant diogelu yn cynnwys arweiniad ar anffurfio organau cenhedlu menywod, cam-drin domestig, camfanteisio rhywiol a chleisiau ar fabanod, yn ogystal â'r gweithdrefnau i'w dilyn pe bai pryder ynghylch diogelu.

Dywedwyd wrthym fod sesiynau goruchwyllo diogelu ffurfiol yn cael eu cynnal yn rheolaidd a bod y staff yn cael eu hannog i drafod materion mewn sesiwn goruchwyllo grŵp. Roedd sesiynau goruchwyllo diogelu ffurfiol wedi cael eu cyflwyno'n ddiweddar, ac roedd yn orfodol i'r staff fynd i ddwy sesiwn y flwyddyn. Roedd y bwrdd iechyd wedi dechrau cyflwyno'r broses i'r bydwragedd

cymunedol yn ddiweddar, gyda'r bwriad o'i hymestyn i weddill y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn.

Roedd gweithdrefnau priodol ar waith i roi gwybod i'r staff am bryderon diogelu mewn perthynas â derbyn cleifion i'r uned, er mwyn sicrhau bod gofal a thriniaeth yn cael eu darparu mewn modd priodol.

Dyfeisiau meddygol, offer a systemau diagnostig

Gwelsom fod archwiliadau o'r cyfarpar dadebru newyddenedigol⁹ yn cael eu cofnodi'n gyson, gan ddangos eu bod wedi cael eu cynnal yn ddyddiol.

Gwelsom fod archwiliadau o gyfarpar arall, fel peiriannau monitro pwysedd gwaed, yn cael eu cynnal mewn modd cyson a rheolaidd.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Dywedodd yr aelodau o'r staff y cawsom sgwrs â nhw eu bod yn fodlon ar ansawdd y gofal roeddent yn gallu ei roi i'w cleifion. Dywedodd y staff a'r cleifion wrthym y byddai'r cleifion yn yr uned eni yn cael eu cadw'n gyfforddus ac yn cael gofal da bob amser, a bod dulliau lleddfu poen ar gael yn ystod y cyfnod esgor. Gwelsom dystiolaeth dda hefyd o gynlluniau triniaeth ac asesu meddygol yng nghofnodion y cleifion a welsom. Gwelsom y staff yn blaenoriaethu anghenion clinigol a gofal cleifion yn effeithiol yn yr uned. O gofnodion y cleifion a welsom, roedd yn amlwg bod blaenoriaethu angen clinigol yn ran flaenllaw o'r broses o gynllunio gofal.

Gwelodd y tîm arolygu fod meini prawf derbyn ar waith yn yr uned dan arweiniad bydwragedd a oedd yn hwyluso'r trefniadau geni ar gyfer menywod risg isel â strep grŵp B neu fenywod yr oedd angen ysgogi eu cyfnod esgor gan fod eu dyddiad disgwyl wedi mynd heibio, gan felly annog normalrwydd. Ystyriwyd bod hyn yn arfer da gan ei fod yn hyrwyddo parhad o ran dewisiadau geni.

⁹ Dyfais i'w chael yn ystod esgor a geni, sy'n cyfuno llwyfan therapi cynhesu effeithiol ynghyd â'r elfennau sydd eu hangen ar gyfer argyfwng clinigol a dadebru.

Dywedwyd wrthym hefyd fod gan yr uned staff theatr dynodedig o theatrau cyffredinol yr ysbyty, ar gyfer toriadau cesaraidd neu driniaethau llawfeddygol eraill. Gwelwyd dwy theatr llawdriniaethau a chadarnhaodd y bydwagedd y cawsom sgwrs â nhw nad oedd byth disgwyl iddynt weithio fel nyrs sgwrio¹⁰ na chyflawni dyletswyddau sgwrio oni bai eu bod wedi'u hyfforddi i wneud hynny. Gwnaethant ddweud wrthym hefyd fod staff mamolaeth a staff y theatrau yn cydweithio'n dda fel tîm.

Er i ni weld bod cydlynnydd bwydo ar y fron wedi cael ei benodi, dywedodd y staff a'r uwch-reolwyr wrthym fod y llwyth gwaith sylweddol yn golygu nad oedd y rôl hybu bwydo ar y fron i'w gweld mor amlwg yn yr uned. Roedd y tîm arolygu o'r farn bod angen mwy o gymorth bwydo ar y fron yn yr uned.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cymorth bwydo ar y fron ei adolygu a'i fod i'w weld yn fwy amlwg ym mhob rhan o'r uned.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Roedd bydwraig ymchwil glinigol a gwelliant arweiniol yn cael ei chyflogi, a oedd yn gweithio ar draws gwasanaethau mamolaeth y bwrdd iechyd. Dywedwyd wrthym fod prosiectau i gefnogi addysg o ran y protocol asesu twf (GAP) a'r pwysau gorau posibl o ran beichiogrwydd (GROW)¹¹, epilepsi mewn cleifion, adolygu dogfennaeth yn llawn a chreu llwybrau gofal ym mhob rhan o'r uned, wedi cael eu cwblhau'n ddiweddar. Dywedwyd wrthym fod rhagor o waith yn yr arfaeth i ddechrau defnyddio bydwagedd sy'n hyrwyddo arloesedd ym mhob rhan o'r gwasanaeth, a fyddai'n cael eu hannog i ymwneud â phrosiectau arloesedd ac ymchwil i gefnogi'r tîm.

¹⁰ Mae nyrsys sgwrio yn nyrsys cofrestredig sy'n cynorthwyo triniaethau llawfeddygol drwy drefnu'r ystafell cyn y llawdriniaeth, gweithio gyda'r llawfeddyg yn ystod y llawdriniaeth a pharatoi'r claf i'w symud i'r ystafell adfer.

¹¹ GAP – Protocol Asesu Twf – GROW – Y pwysau gorau posibl o ran beichiogrwydd (Gweithdrefn sydd â'r nod o fonitro problemau posibl yn ystod beichiogrwydd, yn benodol i fenywod sydd wedi rhoi genedigaeth i fabanod bach yn y gorffennol)

Hefyd, gwelwyd bydwraig datblygu arferion mamolaeth y bwrdd iechyd yn gwneud gwaith ysbrydoledig mewn cysylltiad â Hyfforddiant Obstetrig ac Amlbroffesiynol Ymarferol (PROMPT)¹².

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom fod mesurau cadarn ar waith o ran storio gwybodaeth am gleifion er mwyn sicrhau cyfrinachedd ac atal mynediad anawdurdodedig.

Roedd y fewnwyd yn llawn gwybodaeth i'r staff, gan gynnig amrywiaeth eang o bolisiâu a gweithdrefnau clinigol yn ymwneud â bydwreigiaeth a materion meddygol yr oedd yn hawdd cael gafael arnynt. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd nifer ohonynt yn gyfredol a bod angen iddynt gael eu hadolygu.

Gwelsom fod dangosfwrdd mamolaeth misol yn cael ei greu a oedd yn cynnwys gwybodaeth am bob ysbyty a'r bwrdd iechyd yn ei gyfanrwydd. Roedd y dangosfwrdd yn darparu gwybodaeth am weithgarwch clinigol, ysgogi cyfnod esgor yn ogystal â dangosyddion a digwyddiadau clinigol. Roedd y dangosfwrdd yn cael ei osod yn goch, yn felyn neu'n wyrdd yn dibynnu ar lefel y risg dan sylw.

Gwelsom fod data yn cael eu coladu â llaw o gofrestrau geni gan ddwy fydwraig o'r ward esgor. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chyrrff cenedlaethol eraill, yn derbyn yr holl ddata mamolaeth drwy systemau gwybodaeth electronig wrth feincnodi canlyniadau genedigaethau. Caiff data mamolaeth eu casglu'n electronig ar ôl geni, felly gwnaethom awgrymu y dylai'r adran ystyried symud o ddull casglu data â llaw i ddull casglu data electronig er mwyn bod yn fwy effeithlon.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff polisiâu a gweithdrefnau eu hadolygu a'u diweddarau o fewn amserlenni priodol.

¹² PROMPT – Hyfforddiant Obstetrig ac Amlbroffesiynol Ymarferol. Mae'r cwrs hwn yn dysgu'r rhai sy'n ei fynychu sut i ymdrin ag argyfyngau obstetrig.

Cadw cofnodion

Ar y cyfan, gwelsom fod safon y gwaith o gadw cofnodion yn ddigonol, gyda chynlluniau gofal wedi'u dogfennu'n dda rhwng timau amlddisgyblaethol. Gwelsom fod siartiau arsylwi a bwndeli a llwybrau gofal priodol yn cael eu defnyddio. Fodd bynnag, er i ni weld bod mesurau atal wedi cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau na fyddai'r cleifion yn datblygu thromboembolws gwythiennol (VTE)¹³ yn yr uned, nid oedd asesiadau risg wedi cael eu cofnodi er mwyn dangos y rheswm dros hyn.

Roedd anghysondebau hefyd yn y cofnodion iechyd meddygol a welsom gyda bylchau mewn meysydd megis llofnodion meddygol a rhif cofrestru'r Cyngor Meddygol Cyffredinol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion y cleifion yn dangos yr holl ofal a thriniaethau a roddir i'r cleifion, a'u bod yn cyd-fynd â safonau cadw cofnodion proffesiynol.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd y ffordd y mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Roedd y staff yn ymdrechu i roi gofal diogel ac effeithiol o ansawdd da i gleifion yn yr uned.

Roedd bydwragedd arbenigol wedi cael eu penodi ar draws y bwrdd iechyd, a nodwyd gennym eu bod yn adnoddau defnyddiol

¹³ <https://www.nice.org.uk/guidance/ng89/chapter/Recommendations#risk-assessment>

a gwybodus ar gyfer timau'r uned.

Nododd y staff fod gwaith tîm amlddisgyblaethol da ar waith, a gwelsom dystiolaeth i gefnogi hyn.

Gwelsom dystiolaeth o drefniadau arwain a rheoli cefnogol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol ynghylch y cymorth roeddent yn ei gael gan uwch-aelodau o'r staff.

Fodd bynnag, gwnaethom argymell gwelliannau i'r trefniadau ar gyfer cynllunio swyddi meddygol er mwyn sicrhau parhad gofal.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod y gwasanaeth yn cynnal nifer o gyfarfodydd rheolaidd er mwyn gwella gwasanaethau a chryfhau trefniadau llywodraethu. Roedd cyfarfodydd o'r fath yn cynnwys grŵp ansawdd a diogelwch mamolaeth misol, cyfarfodydd adolygu archwiliadau misol a chyfarfodydd adolygu digwyddiadau o safbwynt clinigol obstetrig. Roedd fforymau misol hefyd yn cael eu cynnal mewn perthynas â'r broses sgrinio uwchsain, y ward esgor a gwasanaethau ôl-enedigol a newyddenedigol, a chyfarfodydd amlddisgyblaethol wythnosol fel adolygiadau Cardiotocograffeg (CTG)¹⁴. Gwelsom fod lefelau staffio'r gwasanaeth yn cael eu monitro a'u llywodraethu'n dda ar y cyfan.

Gwelsom hefyd fod gweithgarwch archwilio mewnol yn mynd rhagddo, a oedd yn cael ei fonitro a'i gyflwyno mewn cyfarfodydd a fforymau ansawdd, diogelwch a risg priodol. Dywedodd y staff wrthym hefyd fod gwaith dysgu gweithredol a gwaith dilynol bob amser yn cael eu cynnal mewn perthynas â chamau gweithredu archwiliadau.

Cadarnhaodd yr uwch-dîm rheoli fod camau gweithredu ac argymhellion o archwiliadau mamolaeth cenedlaethol, fel Mamau a Babanod: Lleihau'r Risg

¹⁴ Dull technegol o gofnodi curiad calon y ffetws a chyfangiadau crothol yn ystod beichiogrwydd yw cardiotocograffeg (CTG).

drwy Ymchwiliadau ac Ymholiadau Cyfrinachol (MBRRACE)¹⁵ ac Each Baby Counts,¹⁶ yn cael eu datblygu yn yr uned. Y nod yw gwella gofal a phrofiad cleifion a'r broses o adrodd ar gamau i leihau risg a diogelwch cleifion yn y dyfodol. Mae cyrff archwilio cenedlaethol perthnasol fel MBRRACE yn dilysu'r gwaith hwn yn allanol bob blwyddyn, a gwneir gwaith parhaus i sicrhau bod yr uned yn cydymffurfio â'r argymhellion a wneir.

Rydym wedi gweld tystiolaeth o grŵp ffocws newydd a ffurfiwyd gyda'r nod o leihau cyfraddau toriadau cesaraidd yn ogystal â PPH. Caiff y grŵp hwn ei arwain gan un o arweinwyr ymgynghorol y ward esgor. Mae cynllun clir ar waith i adolygu'r nodiadau a thynnu sylw at arferion da a meysydd i'w gwella. Mae'r cyfarwyddwr clinigol yn goruchwyllo'r prosiect hwn.

Roedd y bwrdd iechyd yn dangos proses glir a chadarn o ran rheoli digwyddiadau clinigol. Roedd bydwraig llywodraethu arweiniol wedi'i chyflogi, a oedd yn gyfrifol am adolygu ac ymchwilio i ddigwyddiadau clinigol a'u rheoli ar draws y bwrdd iechyd. Dywedodd pob aelod o'r staff y cawsom sgwrs â nhw fod y sefydliad yn eu hannog i roi gwybod am gamgymeriadau, achosion a fu bron â digwydd neu ddigwyddiadau, ac nad oedd y rhain byth yn cael eu trin mewn modd cosbol.

Roedd cyfarfodydd risg misol yn cael eu cynnal yn Ysbyty Gwynedd lle roedd digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt, ymchwiliadau a'u canfyddiadau yn cael eu trafod mewn fformat amlddisgyblaethol. Gwelsom fod cofnodion yn cael eu cynhyrchu a bod gwybodaeth/gwersi yn cael eu rhannu ar draws gwasanaethau mamolaeth y bwrdd iechyd er mwyn cefnogi newidiadau i ymarfer a dysgu. Cawsom sicrwydd bod y gofrestr risg fewnol yn cael ei monitro a bod camau gweithredu'n cael eu cymryd yn ôl yr angen.

¹⁵ MBRRACE – Mamau a Babanod: Mae MBRRACE (Mamau a Babanod: Lleihau'r Risg drwy Ymchwiliadau ac Ymholiadau Cyfrinachol) ar waith ledled y DU gyda'r nod o gyflwyno gwybodaeth gadarn i gefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau mamolaeth, newyddenedigol a babanod diogel, teg o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y claf.

¹⁶ Each Baby Counts – rhaglen gwella ansawdd genedlaethol Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr i leihau nifer y babanod sy'n marw neu sy'n dioddef anabledd difrifol o ganlyniad i ddigwyddiadau yn ystod y cyfnod esgor.

Roedd cyfarfod llywodraethu clinigol yn cael ei gynnal bob mis, a oedd hefyd â goruchwyliaeth dros y digwyddiadau y rhoddwyd gwybod amdanynt. Roedd y fydwraig llywodraethu arweiniol hefyd yn cyflwyno themâu a thueddiadau yn y cyfarfod hwn, gyda'r nod o dynnu sylw at unrhyw feysydd ymarfer roedd angen mynd i'r afael â nhw ar draws y bwrdd iechyd. Caiff gwersi a ddysgwyd eu rhannu a'u dosbarthu i bob aelod o'r staff mewn cylchlythyr adborth misol, sy'n crynhoi materion y mis. Dywedodd y staff wrthym fod y broses hon yn ddefnyddiol iawn.

Roedd y staff o'r farn bod yr arweinyddiaeth ddyddiol yn yr uned yn ardderchog. Dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan aelodau'r uwch-dîm a bod 'drws agored' bob amser er mwyn siarad â nhw. Dywedodd y staff wrthym hefyd fod aelodau'r uwch-dîm yn cynnal ymweliadau misol â phob safle, gan roi'r cyfle i'r staff gael adborth a chymorth os oedd angen hynny.

Gwelsom y fydwraig ymgynghorol yn gwneud gwaith da i gyrraedd arfer arbenigol. Roedd hyn yn cynnwys datblygu'r protocol Genedigaeth drwy'r Wain ar ôl Toriad Cesaraid¹⁷, ymgysylltu â defnyddwyr wrth ddatblygu'r gwasanaeth, a chreu llawer o fentrau hyfforddi i wella'r broses o ddysgu gwersi a datblygu.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Roedd yr holl staff y cawsom sgwrs â nhw yn teimlo eu bod yn cael arweinyddiaeth a chymorth ardderchog, yn bersonol ac yn broffesiynol. Gwelwyd bod gwaith tîm da yn cael ei annog gan yr holl uwch-reolwyr. Cafodd hyn ei gadarnhau gan y staff y gwnaethom siarad â nhw a'r rhai a gwblhaodd ein holiaduron. Dywedodd nifer o'r staff eu bod yn ystyried bod eu hamgylchedd gwaith yn gadarnhaol a'u bod yn hapus i weithio yn Ysbyty Gwynedd. Roedd rhai o'r sylwadau gan y staff yn cynnwys y canlynol:

¹⁷ Genedigaeth drwy'r Wain ar ôl Toriad Cesaraid – Lle y gall llawer o fenywod sydd wedi cael un toriad cesaraid blaenorol roi genedigaeth drwy'r wain yn ddiogel mewn beichiogrwydd arall, neu y gallant ddewis cael toriad cesaraid.

"Rwyf wedi cael cefnogaeth gadarn gan bob aelod o'r staff yn Betsi, ac rwy'n gwerthfawrogi hyn"

"Staff aciwt a chymunedol hynod gefnogol, caredig a chroesawgar".

Dywedodd yr uwch-staff y gwnaethom gyfnewid â nhw wrthym am lwyddiant y cymorth a roddwyd i'r gwasanaethau mamolaeth gan Deloitte Risk Advisory UK¹⁸. Cyflwynwyd y dull cymorth hwn yn y bwrdd iechyd bedair blynedd yn ôl pan ddaeth y bwrdd iechyd yn destun mesurau arbennig¹⁹. Gwelwyd canlyniadau effeithiol o ran arferion gwaith, cydberthnasau gwaith a rheoli risgiau gweithredol.

Dywedodd pob aelod o'r staff wrthym fod y rotas bydwagedd yn cael eu rheoli'n dda yn yr uned. Os oedd prinder staff, byddai'r system newydd a gyflwynwyd ar gyfer bydwagedd ar-alw yn cael ei defnyddio. Datblygwyd y system er mwyn gweithredu rota ar gyfer bydwagedd (sy'n gweithio ar hyn o bryd ar y safle aciwt) i ymdrin â phrinder staff, yn hytrach na defnyddio bydwagedd cymunedol. Cafwyd adborth cadarnhaol eisoes am y newid hwn a chofnodwyd cynnydd yn nifer y genedigaethau cartref gan fod bydwagedd cymunedol ar gael i ddarparu gofal yn y gymuned yn hytrach na chael eu galw i'r safle aciwt i ymdrin â phrinder staff.

Gwelsom fod prosesau uwchgyfeirio adrannol ar waith ac roedd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod ble i ddod o hyd i'r polisi a sut i uwchgyfeirio materion megis prinder staff. Dywedodd yr uwch-aelodau o staff wrthym hefyd pe byddai angen y byddai staff swyddfa a oedd wedi cael hyfforddiant clinigol yn cyflenwi os oedd prinder staff.

Roedd y staff meddygol y cawsom sgwrs â nhw o'r farn bod y rotas meddygol yn cael eu rheoli'n dda. Fodd bynnag, clywsom fod rhai aelodau o'r staff meddygol weithiau'n cael eu symud o'r uned esgor er mwyn ymdopi â'r llwyth

¹⁸ Deloitte Risk Advisory UK – sefydliad a helpodd y bwrdd iechyd i alluogi'r busnes i ddeall a rheoli ei risgiau'n fwy effeithiol, gan roi'r cyfle iddo greu a diogelu ei werthoedd ar gyfer ei randdeiliaid i gyd.

¹⁹ Mae mesurau arbennig yn cyfeirio at amrywiaeth o gamau gweithredu y gellir eu cymryd er mwyn gwella byrddau iechyd, ymddiriedolaethau neu wasanaethau penodol y GIG mewn amgylchiadau eithriadol.

gwaith yn yr uned asesu beichiogrwydd cynnar ac argyfyngau obstetrig. O ganlyniad, dim ond un cofrestrydd fyddai'n gweithio yn yr uned esgor. Ystyriwyd bod hyn yn cael effaith andwyol ar barhad gofal. Cawsom sgwrs â'r uwch-dîm meddygol, a gydnabu fod y maes hwn yn faes i'w wella. Nododd y byddai'r cynlluniau gwaith yn cael eu hadolygu ar unwaith. Cadarnhaodd cyfarwyddwr clinigol yr uned fod y broses o gynllunio swyddi'r obstetregyddion a'r gynaecolegwyr ymgynghorol wrthi'n cael ei hadolygu er mwyn ystyried penodi obstetregydd ymgynghorol dynodedig enwebedig i fod yn bresennol ar y ward esgor yn ystod oriau gwaith. Byddai hyn yn sicrhau parhad gofal ac yn gwella lefelau uwch-staff meddygol yn yr uned.

Roedd rhai o'r staff meddygol hefyd o'r farn bod angen i'r gwasanaeth gyflogi meddyg ymgynghorol ar gyfer ffetysau yn yr adran cleifion mamolaeth allanol, er mwyn darparu gofal i fenywod y mae angen cymorth arnynt yn y cyfnod cynnedigol. Cawsom wybod bod adolygiad o wasanaethau meddygaeth ar gyfer ffetysau yng Ngogledd Cymru yn mynd rhagddo, ac y caiff ei gwblhau ganol 2020. Esboniodd y staff hefyd fod grŵp gorchwyl a gorffen ar feddygaeth ar gyfer fetysau wrthi'n ystyried ychwanegu elfen meddygaeth ar gyfer fetysau at y swydd meddyg ymgynghorol wag.

Gwelsom dystiolaeth o raglenni sefydlu cadarn ar gyfer bydwagedd a staff meddygol, ac roedd y staff o'r farn bod y rhain yn fuddiol pan oeddent yn dechrau yn eu rôl. Gwelsom hefyd fod y trefniadau hyfforddi a mentora ar gyfer staff meddygol yn gadarnhaol iawn. Cadarnhaodd y staff meddygol y cawsom sgwrs â nhw fod yr hyfforddiant, y cymorth a'r arweiniad o safon uchel. Dywedodd y staff meddygol a'r bydwagedd hefyd fod y sefydliad yn annog ac yn cefnogi gwaith tîm da.

Gwelsom fod proses ar waith ar gyfer monitro presenoldeb y staff a'u cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol. Mae'r rhan fwyaf o hyfforddiant gorfodol y bwrdd iechyd yn cael ei gwblhau ar-lein, fel hyfforddiant ar iechyd a diogelwch, diogelwch tân, atal a rheoli heintiau a diogelu, a chaiff ei fonitro'n ganolog drwy gofnod staff electronig. Mae'r staff yn cael negeseuon i roi gwybod iddynt pan fydd eu hyfforddiant yn dod i ben er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni terfynau amser.

Mae'r gwasanaeth yn cynnal tri diwrnod astudio gorfodol sy'n ymwneud â mamolaeth yn ystod y flwyddyn. Mae un o'r diwrnodau hyn wedi'i neilltuo ar gyfer hyfforddiant PROMPT, sef digwyddiad hyfforddi amlddisgyblaethol a ddefnyddir er mwyn annog gweithio amlddisgyblaethol mewn achosion brys. Dywedodd yr holl staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mynychu'r hyfforddiant hwn pan fyddant yn gallu a'i fod yn ddefnyddiol iawn. Dangoswyd ffigurau cydymffurfiaeth ar gyfer hyfforddiant PROMPT i ni a cawsom sicrwydd

bod hyfforddiant rheolaidd yn cael ei gynnal. Cadarnhawyd hyn hefyd yn holiaduron y staff a ddaeth i law.

Roedd gan y bwrdd iechyd fydwraig arweiniol ym maes addysg ymarfer/hwyluso ymarfer, ac mae'n monitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant drwy gydol y flwyddyn. Mae angen i'r staff drefnu eu bod yn mynychu'r diwrnodau hyfforddi perthnasol, a rhoddir gwybod i'r uwch-dimau am bresenoldeb y staff.

Gwelsom dystiolaeth o hyfforddiant ar Gardiotocograffeg (CTG), ond dywedodd y staff y cawsom sgwrs â nhw fod y sticeri monitro CTG a gyflwynwyd yn ddiweddar (dull i wella parhad gofal) yn ddryslyd o ganlyniad i'r wybodaeth sydd ei hangen a bod angen mwy o hyfforddiant ar gwblhau thesiau.

Roedd goruchwylwyr clinigol ar gyfer bydwragedd ar waith ar draws y bwrdd iechyd. Mae'r goruchwylwyr yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â'r safon genedlaethol sy'n pennu bod pob bydwraig yn cael pedair awr o gyswllt â goruchwyllydd clinigol ar gyfer bydwragedd, gan gynnwys dwy awr o oruchwyllo mewn grŵp. Mae'r bwrdd iechyd yn monitro cydymffurfiaeth â'r targed hwn yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol, ac mae'n parhau i'w monitro'n barhaus.

Gwnaethom gadarnhau bod pob arfarniad yn gyfredol yn yr uned. Dywedodd y staff y cawsom sgwrs â nhw wrthym eu bod yn cael arfarniadau rheolaidd a'u bod yn eu hystyried yn gyfarfodydd cadarnhaol er mwyn gwella datblygiad proffesiynol parhaus. Dywedwyd wrthym hefyd fod pob aelod o'r staff yn cael amser ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant fel rhan o'i oriau gwaith.

Gwelsom fod y bydwragedd arbenigol arweiniol yn darparu lefel dda o gymorth a'u bod yn wybodus am eu rolau arbenigol. Mae'r arweinwyr hyn yn rhoi cymorth ac arweiniad drwy ddiwrnodau astudio, sesiynau goruchwyllo a chyfarfodydd â'r staff yn ôl yr angen. Gwelsom ystod dda o gymysgedd sgiliau ym mhob rhan o'r uned hefyd.

Er y dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw nyrsys meithrin wedi'u cyflogi o fewn y gwasanaethau, gwelsom fod gweithwyr cymorth mamolaeth yn cael eu hannog i ddatblygu eu sgiliau i'r cymhwyster nesaf. Byddai hyn yn golygu y gellid rhoi mwy o gymorth i'r bydwragedd a mamau newydd mewn meysydd megis bwydo ar y fron, ymolchi ac anghenion gofal cyffredinol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau'r canlynol:

- Caiff hyfforddiant ar CTG ei adolygu er mwyn cynnwys prosesau newydd a gyflwynir, e.e. sticeri asesu CTG
- Caiff cynlluniau gwaith meddygol eu hadolygu er mwyn sicrhau bod digon o staff meddygol ar gael i gyflenwi bob amser.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu ysbytai

Gallwn ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau gweithredu wrth arolygu ysbytai'r GIG, gan gynnwys:

- Arolygiad dwys o un ward: cynhaliwn arolygiad trylwyr a manwl o un ward
- Arolygiad o sawl ward: ymwelwn â nifer o wardiau ac adrannau yn yr un ysbyty er mwyn nodi materion neu themâu a all fod yn gymwys i'r ysbyty cyfan
- Arolygiad o sawl ysbyty: ymwelwn â nifer o ysbytai yn yr un bwrdd iechyd er mwyn asesu'r broses o lywodraethu a chyflenwi gwasanaethau cyfan.

Fel arfer, ni roddir rhybudd pan arolygir ysbytai. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau fel maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr gwasanaethau ar ddiwedd yr arolygiad, mewn ffordd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae ysbytai yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn ysbytai.

Ceir manylion pellach am [sut mae AGIC yn arolygu'r GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Gwasanaeth: Ysbyty Gwynedd

Maes: Gwasanaethau Mamolaeth

Dyddiadau arolygu: 25 – 27 Tachwedd 2019

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut y cafodd y pryder ei uwchgyfeirio gan AGIC	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Dd/G			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Ysbyty Gwynedd

Maes: Gwasanaethau Mamolaeth

Dyddiadau arolygu: 25 – 27 Tachwedd 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dd/G				

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty Gwynedd

Maes: Gwasanaethau Mamolaeth

Dyddiadau arolygu: 25 – 27 Tachwedd 2019

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n nodi'r camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff adnoddau cymorth amenedigol ac argaeledd y cymorth hwnnw eu hadolygu.		Mae'r Gyfarwyddiaeth yn gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Amenedigol er mwyn sicrhau bod yr holl wybodaeth a chymorth perthnasol ar gael i bob menyw. Mae'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Amenedigol wedi'i leoli ar safle Ysbyty Glan Clwyd. Mae pob swydd ymarferydd	Bydwraig Arbenigol ym maes Iechyd Meddwl Amenedigol Tîm Arbenigol ym maes Iechyd Meddwl	Dechreuwyd ac yn parhau Cwblhawyd

		<p>Iechyd Meddwl Amenedigol wedi'i llenwi yng Ngogledd Cymru ac felly mae gweithiwr proffesiynol penodedig yn gweithio ym mhob un o'r chwe sir.</p> <p>Mae rhaglen hyfforddi gadarn ar waith gan y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Amenedigol ar gyfer 2020, a ddechreuodd ym mis Ionawr. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys 'Hyfforddi'r Hyfforddwr' ym maes <i>Iechyd Meddwl Amenedigol i Fabanod ac Ymwelwyr Iechyd</i>. Daeth y Fydwaig Datblygiad Proffesiynol i Fenywod i'r hyfforddiant ym mis Ionawr 2020, gan gyflwyno cynllun i benodi bydwagedd fel hyrwyddwyr ym mhob maes clinigol a rhaeadru'r wybodaeth arbenigol hon.</p>	<p>Amenedigol</p> <p>Tîm Arbenigol ym maes Iechyd Meddwl Amenedigol</p> <p>Bydwraig Datblygiad Proffesiynol</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Dechreuwyd</p> <p>I'w gwblhau erbyn mis Ebrill 2020</p>
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff trafodaethau eu cynnal am ddewisiadau geni ac y cânt eu dogfennu'n briodol.</p>	<p>3.5 Cadw cofnodion.</p>	<p>Rhoddir copi o daflen Dewisiadau Geni Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i bob menyw feichiog er mwyn hwyluso trafodaethau am yr opsiynau geni.</p> <p>Atgoffwyd pob aelod o'r staff y dylid dogfennu trafodaethau Dewisiadau Geni</p>	<p>Bydwagedd cymunedol</p> <p>Rheolwr</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>

		<p>yn y Nodiadau Llaw. Caiff y broses hon ei monitro yn ystod archwiliad nodiadau misol y Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwragedd.</p> <p>Dechreuwyd cynnal clinigau Dewisiadau Geni yn yr uned famolaeth yn Ysbyty Gwynedd ym mis Ionawr 2020.</p> <p>Caiff adborth gan fenywod ar y broses o gyflwyno'r gwasanaeth hwn ei goladu a'i gyflwyno i'r is-grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Menywod bob chwarter. Wedyn, caiff yr adborth hwn ei gyflwyno i fyny i'r Bwrdd drwy'r Grŵp Ansawdd a Diogelwch Corfforaethol.</p>	<p>gweithredol arweiniol</p> <p>Bydwraig arweiniol yr Uned dan Arweiniad Bydwragedd</p>	Cwblhawyd
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cleifion a'u teuluoedd yn cael gwybod am y Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) sy'n cynnig gwasanaethau eirioli a chymorth.</p>	<p>1.1 Hybu, Diogelu a Gwella Iechyd</p>	<p>Mae manylion cyswllt y Cyngor Iechyd Cymuned yn cael eu harddangos ac ar gael ym mhob un o'r ardaloedd clinigol.</p> <p>Caiff y gydymffurfiaeth hon ei monitro wrth i'r Metron gerdded o amgylch yr uned bob dydd.</p>	<p>Metron Cleifion Mewnol</p>	Cwblhawyd
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod geliau hylendid dwylo ar gael i'w defnyddio.</p>	<p>2.1</p>	<p>Mae pypiau cyflenwi geliau hylendid dwylo cwbl weithredol ar gael wrth ymyl pob gwely ac ym mhob rhan o'r uned.</p>	<p>Rheolwr y ward</p>	Cwblhawyd

		Bydd y swyddog cadw tŷ a'r Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd yn monitro cydymffurfiaeth yn hyn o beth bob dydd.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cymorth bwydo ar y fron ei adolygu a'i fod i'w weld yn fwy amlwg ym mhob rhan o'r uned.	1.1 Hybu, Diogelu a Gwella Iechyd	<p>Mae'r holl fydwragedd yn cael diweddariad blynyddol ar fwydo ar y fron ac maent ar gael i helpu menywod unigol pan fo angen. Ceir tudalen benodedig ar wefan y Bwrdd Iechyd hefyd.</p> <p>Mae'r Cydlynnydd Bwydo Babanod ar gael er mwyn helpu'r staff i ddarparu gofal i fenywod a babanod mewn achosion mwy cymhleth.</p> <p>Datblygwyd achos busnes sy'n nodi opsiynau o ran sut y gallwn wella cymorth bwydo ar y fron a chefnogi gweithwyr cymorth bwydo ar y fron ymhellach fel rhan o Brosiect Gwella Ansawdd. Rydym yn aros am ymateb gan yr adran Gyllid.</p> <p>Os ceir cymeradwyaeth gan yr adran Gyllid, bydd y Gyfarwyddiaeth yn recriwtio yn ystod mis Mawrth a bydd y staff yn dechrau yn eu swyddi yn ystod</p>	Rheolwr y ward Cydlynnydd Bwydo Babanod Grŵp Bwydo Babanod Strategol Gogledd Cymru	Cwblhawyd Cwblhawyd Cwblhawyd Mai 2020

		mis Mai 2020.		
Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff polisïau a gweithdrefnau eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddarau o fewn amserlenni priodol.	3.4 Llywodraethu Gwybodaeth	<p>Mae gan y Grŵp Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig Menywod gynllun gweithredu sy'n nodi'r holl bolisïau a chanllawiau sydd wedi cael eu datblygu, gan gynnwys dyddiadau adolygu.</p> <p>Bydd y Fforymau priodol o fewn yr adran Gwasanaethau Menywod yn cysylltu ag awduron yr holl bolisïau/canllawiau pan fydd angen eu hadolygu.</p> <p>Caiff awduron unrhyw bolisïau y mae angen eu hadolygu o hyd eu hatgoffa'n rheolaidd i gyflwyno eu fersiynau wedi'u diweddarau i'r grŵp llywodraethu perthnasol i'w cymeradwyo mewn modd amserol. Datblygwyd dull olrhain i ategu'r broses o fonitro'r cam gweithredu hwn.</p> <p>Dosbarthwyd memo gan y Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod ac Arweinydd Clinigol Gogledd Cymru ym mis Rhagfyr 2019 i bob aelod o'r staff, yn nodi bod angen i awduron Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig</p>	<p>Grŵp Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig</p> <p>Cadeirydd y Fforwm</p> <p>Grŵp Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig</p> <p>Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth a Gwasanaethau</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Parhaus</p> <p>Cwblhawyd</p>

		<p>gydymffurfio â'r terfynau amser gofynnol ar gyfer diweddaru'r dogfennau hynny.</p> <p>Cytunodd yr Is-grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Menywod y dylid rhannu rhestr o bolisiâu, awduron a dyddiadau adolygu â thimau arwain triwriaeth y safle, er mwyn gorfodi a chefnogi llinellau atebolrwydd.</p> <p>Mae dyddiadau darfod Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig wedi'u hymestyn hyd at fis Mawrth 2020 er mwyn sicrhau bod y staff yn gwbl ymwybodol bod y Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig sydd ar y fewnwyd yn parhau'n weithredol ac yno i'w helpu.</p> <p>Mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu llwybr ffurfiol ar gyfer dogfennau rheoli ysgrifenedig er mwyn sicrhau y caiff unrhyw bolisiâu sy'n agos at eu dyddiad darfod eu hadolygu a'u diweddaru mewn ffordd amserol a phriodol.</p> <p>Mae'r Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod ac Arweinydd Clinigol Gogledd Cymru yn monitro'r</p>	<p>Menywod Arweinydd Clinigol Gogledd Cymru</p> <p>Aelodau'r Grŵp Ansamdd, Diogelwch a Phrofiad</p> <p>Grŵp Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig</p> <p>Grŵp Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Mawrth 2020</p> <p>Dechreuwyd ac yn parhau</p> <p>Cwblhawyd</p>
--	--	---	---	---

		<p>cynnydd a wnaed yng nghyfarfodydd misol yr Uwch-dîm Rheoli.</p> <p>Trefnwyd cyfarfodydd bob pythefnos i Gadeiryddion Fforymau'r Gyfarwyddiaeth Menywod, yr arweinydd Llywodraethu a'r Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth er mwyn monitro cynnydd a pherfformiad yn erbyn y cynllun gweithredu ar gyfer Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig.</p> <p>Caiff adroddiad cynnydd ar Ddogfennau Rheoli Ysgrifenedig ei adolygu bob chwarter gan yr Is-grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Menywod.</p>	<p>Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod</p> <p>Arweinydd Clinigol Gogledd Cymru</p> <p>Grŵp Dogfennau Rheoli Ysgrifenedig</p>	<p>Cwblhawyd ac yn parhau</p> <p>Cwblhawyd ac yn parhau</p>
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod cofnodion y cleifion yn dangos yr holl ofal a thriniaethau a roddir i'r cleifion, a'u bod yn cyd-</p>	<p>3.5 Cadw Cofnodion</p>	<p>Mae Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwreigedd yn trafod safonau dogfennaeth sy'n cynnwys y gofal a'r triniaethau a ddarperir i fenywod, yn</p>	<p>Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwreigedd</p>	<p>Parhaus</p>

fynd â safonau cadw cofnodion proffesiynol.		<p>ystod eu cyflwyniadau ar ddiwrnodau hyfforddiant gorfodol. Darperir y sesiynau hyn bob dwy flynedd, am yn ail â sesiynau cyfathrebu uwch, fel rhan o Ddadansoddiad o Anghenion Hyfforddiant y cytunwyd arno ar gyfer y Gyfarwyddiaeth. Caiff y sesiynau hyn eu cynnig i fydwagedd a staff meddygol.</p> <p>Mae'r Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwagedd hefyd yn darparu sesiynau archwilio nodiadau misol i'r staff, lle gallant adolygu setiau o nodiadau a dysgu'n uniongyrchol o unrhyw arferion da/gwael a nodir yn ystod y sesiwn. Caiff y canlyniadau archwilio eu bwydo yn ôl mewn sesiynau Goruchwyllo Grŵp, y mae'n ofynnol i bob bydwraig eu mynychu bob blwyddyn. Cyflwynir y canlyniadau i'r is-grŵp Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Menywod bob blwyddyn.</p> <p>Mae'n ofynnol i bob un o'r bydwagedd archwilio dwy set o'u cofnodion eu hunain o'r flwyddyn flaenorol er mwyn eu trafod mewn sesiwn goruchwyllo grŵp bob blwyddyn.</p> <p>Mae'r Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer</p>	<p>Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwagedd</p> <p>Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwagedd</p> <p>Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwagedd</p>	<p>Parhaus</p> <p>Cwblhawyd</p> <p>Cwblhawyd</p>
---	--	--	---	--

		<p>Bydwragedd hefyd yn cefnogi sesiynau dogfennaeth ar gyfer y staff meddygol yn ystod eu rhaglen sefydlu ac yn pwysleisio bod angen cynnwys y gofal a'r triniaethau a ddarperir i fenywod yn eu dogfennaeth feddygol.</p> <p>Mae stampiau wedi cael eu hailarchebu i bob aelod o'r staff eu defnyddio wrth ochr eu llofnod wrth ddogfennu cofnod yn nodiadau menyw.</p>	Tîm Gweithredol Menywod	Cwblhawyd
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff hyfforddiant ar CTG ei adolygu er mwyn cynnwys prosesau newydd a gyflwynir, e.e. sticeri asesu CTG.</p>		<p>Ymgynghorir â'r staff ynghylch unrhyw ddogfennaeth newydd cyn ei rhoi ar waith.</p> <p>Mae'r Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwragedd hefyd yn cyflwyno gwybodaeth am gyflwyno dogfennaeth newydd ar yr hyb bydwreigiaeth.</p>	<p>Uwch-dîm Rheoli Timau Rheoli'r Safle</p> <p>Goruchwylwyr Clinigol ar gyfer Bydwragedd</p>	<p>Dechreuwyd ac yn parhau</p>
		<p>Mae'n ofynnol i bob bydwraig ac obstetregydd gwblhau chwe awr o hyfforddiant wyneb-yn-wyneb ar CTG bob blwyddyn. Mae'r sesiynau hyfforddi yn cynnwys dehongli CTG gan ddefnyddio'r sticeri CTG cynenedigol ac</p>	<p>Bydwragedd sy'n hyrwyddwyr CTG</p> <p>Bydwraig Datblygiad</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Dechreuwyd</p>

		<p>yn ystod genedigaeth sydd ar waith ym mhob rhan o'r Gyfarwyddiaeth Menywod.</p> <p>Nodwyd bydwagedd fel hyrwyddwyr CTG ym mhob uned famolaeth. Mae'r bydwagedd sy'n hyrwyddwyr CTG wrthi'n cwblhau rhaglen hyfforddi sy'n cynnwys mynd i ddiwrnod astudio RCOG a gweithio gyda hyrwyddwyr CTG cenedlaethol eraill.</p> <p>Ar ôl cwblhau'r hyfforddiant, bydd yr hyrwyddwyr yn gyfrifol am gyflwyno'r hyfforddiant i fydwagedd ac obstetregwyr yn y Gyfarwyddiaeth.</p>	<p>Proffesiynol Obstetregwyr Ymgynghorol</p> <p>Bydwagedd sy'n hyrwyddwyr CTG</p> <p>Bydwraig Datblygiad Proffesiynol</p> <p>Obstetregwyr Ymgynghorol</p>	<p>ac yn parhau</p> <p>Dechreuwyd a disgwylir ei gwblhau erbyn mis Ebrill 2020</p>
<p>Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cynlluniau gwaith meddygol eu hadolygu er mwyn sicrhau bod digon o staff meddygol ar gael i gyflenwi bob amser.</p>	7.1 Y Gweithlu	<p>Cwblhawyd adolygiad annibynnol allanol o'r rotas meddygol, fel rhan o strategaeth adolygu gweithlu meddygol y bwrdd iechyd.</p> <p>Bwriedir cynnal adolygiad annibynnol o gynlluniau swyddi ar 7 Chwefror 2020.</p>	<p>Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol</p> <p>Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol</p>	<p>Cwblhawyd</p> <p>Dechreuwyd a disgwylir ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2020.</p>

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): **Fiona G Giraud**

Teitl swydd: **Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Menywod**

Dyddiad: **17-1-2020**